Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1955A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni chymerir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 13

Cynllunio gweithredol 16

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi'r gorau i weithgarwch wedi'i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso'r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a'r rheiny'n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio'r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith[1] yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Mae ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

[1] Cafodd ein gwaith ei gydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm Archwilio Mewnol o lywodraethu sy'n cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

# Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithredu'n effeithiol trwy gydol pandemig COVID-19. Mae ganddi ddiwylliant cryf o lywodraethu da sy'n seiliedig ar dryloywder, cydweithio a her adeiladol a dyfodd yn gryfach byth yn ystod y pandemig. Fe addasodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau llywodraethu, ansawdd, diogelwch a rheoli risgiau'n gyflym ac mae'n parhau i ganfod cyfleoedd i wella. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella'r cysylltiadau rhwng ei waith cynllunio ar gyfer adferiad a'i chynlluniau i gyflawni ei rhan hi o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, yn enwedig ei gofynion o ran y gweithlu ar y cyfan[2].

7 Mae'r Ymddiriedolaeth a'i Bwrdd wedi gweithio'n dda o dan bwysau i addasu trefniadau llywodraethu. Rhennir busnes yn effeithiol rhwng y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (PALIC) a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (PADG). Mae busnes y Bwrdd yn dryloyw ac yn cael ei gyfleu'n dda. Mae gwybodaeth yn llifo'n effeithiol o Dîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd ac mae'r Bwrdd yn amlwg yn ganolog i brosesau penderfynu. Mae aelodau'r Bwrdd yn darparu trefniadau craffu da a cheir parch rhwng Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu a mireinio'i threfniadau llywodraethu a chorfforaethol a chwilio am ffyrdd o wella. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i sicrhau gwasanaethau diogel, o ansawdd ac i reoli risgiau. Mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth dda i sicrhau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ynghylch ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau.

8 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli adnoddau ariannol yn gweithio'n dda. Cyflawnodd ei dyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros y cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ragweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2020-21 er bod mantoli'r cyfrifon yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd cyllid ychwanegol ar gael i dalu costau parhaus ymateb i COVID-19. Mae ganddi reolaethau ariannol cryf ac mae'n darparu gwybodaeth glir am berfformiad ariannol a risg ar gyfer craffu gan y Bwrdd.

9 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynlluniau effeithiol yn gyflym i gyflawni ei gwaith Profi, Olrhain a Diogelu. Mae wedi adnabod yr adnoddau y mae eu hangen arni i gyflawni'r cynlluniau ac wedi adnabod risgiau peidio â gwneud hyn yn iawn. Mae'r Bwrdd wedi ymwneud yn helaeth â datblygu'r cynlluniau ac mae trefniadau da i fonitro cynnydd. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ennyn ymgysylltiad rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddatblygu ei chynlluniau a'u rhoi ar waith ac mae'n bwriadu ymgysylltu ymhellach i adolygu'r effaith yn yr hydref. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ei dull o fynd ar drywydd adferiad sefydliadol gan gynnwys sut y mae ei chynlluniau i roi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu ar waith yn

[2] Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at gynlluniau'r Ymddiriedolaeth i weithredu ei rhan hi o raglen Profi, Olrhain, Diogelu genedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae ein hasesiad strwythuredig yn bwrw golwg ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu a monitro cynnydd yn erbyn ei chynllun. Ni wnaethom adolygu pa mor dda y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu Profi, Olrhain, Diogelu.

cysylltu ag amcanion busnes ehangach ac ailgychwyn gwasanaethau. Mae’r Ymddiriedolaeth yn asesu’r risg i’w gweithlu ac yn gwneud newidiadau i gefnogi ei staff. Mae wedi gwella cyfathrebu mewnol ac wedi cyflwyno ffyrdd newydd o gefnogi lles staff. Mae hefyd yn gwella data ar argaeledd gweithlu i’w helpu i ddeall ble y gallai bylchau yn y trefniadau staffio effeithio ar gyflawni.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith yn 2020 ond rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella drwy’r adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn a hithau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achosir gan y pandemig.

12 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi addasu ei threfniadau llywodraethu, rheoli risgiau a sicrwydd yn gyflym i ymateb yn effeithiol i COVID-19. Mae trefniadau llywodraethu'n rhagorol ac wedi gwella ymhellach yn ystod y pandemig.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

13 **Fe addasodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau llywodraethu'n gyflym ac yn effeithiol i ymateb i heriau COVID-19.**

14 Fe newidiodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau llywodraethu ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020. Roedd newidiadau'n cynnwys atal cyfarfodydd bwrdd wedi'u ffrydio'n fyw ac estyn gallu'r Prif Weithredwr i neilltuo adnoddau ariannol ar wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 i £1 filiwn[3]. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (PALIC) a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (PADG) wedi bod yn cwrdd bob wyth wythnos ers mis Ebrill 2020[4], tra bo'r Bwrdd wedi bod yn cwrdd yn fisol ers mis Chwefror 2020. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gyfleu'r newidiadau'n glir i aelodau'r Bwrdd ac ym mhapurau'r Bwrdd a gyhoeddwyd ar ei gwefan. Mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd hefyd yn disgrifio newidiadau ehangach i drefniadau llywodraethu ac yn crynhoi cyfarfodydd y Bwrdd mewn blogiau rheolaidd ar fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi cael eu hatal ers mis Ebrill a'u swyddogaethau wedi cael eu hychwanegu at gylch gorchwyl y PALIC a'r PADG. Mae busnes hanfodol o'r pwyllgorau a ataliwyd yn cael ei ddirprwyo'n effeithiol.

15 Mae agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau wedi cael eu symleiddio i alluogi'r Ymddiriedolaeth i ganolbwyntio ar fusnes hanfodol. Fe wnaeth y Bwrdd hefyd ychwanegu rhai eitemau at gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau i ganolbwyntio ar faterion COVID-19 brys. Mae sicrwydd o bwyllgorau i'r Bwrdd yn gweithio'n dda trwy adroddiadau cadeiryddion pwyllgorau ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Fe welsom graffu da ar eitemau a ychwanegwyd at gylchoedd gorchwyl yng nghyfarfodydd pwyllgorau. Mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu ei drefniadau llywodraethu cyfredol ym mis Awst 2020, gan gynnwys a ddylid adfer pwyllgorau a ataliwyd yn ystod y pandemig.

[3] Mewn realiti, mae'r holl wariant sylweddol ar COVID-19 yn yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

[4] Yn y gorffennol, mae'r pwyllgorau wedi cwrdd yn chwarterol.

16 Mae ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth i'r Bwrdd yn rhagorol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael sesiynau briffio wythnosol, gan gynnwys adroddiadau sefyllfa ar gynnydd wythnosol yn erbyn cynlluniau gweithredol (gweler adran 3 o'r adroddiad hwn). Mae aelodau'n cael gwybodaeth arall rhwng sesiynau briffio wythnosol i aros gyfuwch â datblygiadau a helpu'r Ymddiriedolaeth i wneud penderfyniadau cyflym. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw logiau o ganllawiau Llywodraeth Cymru a chanllawiau perthnasol eraill. Yn ystod COVID-19 mae wedi cadw log o geisiadau am wybodaeth i'r Ymddiriedolaeth a'i hymatebion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wella hygyrchedd gwybodaeth i'r Bwrdd a'i bwyllgorau, gan gynnwys dangosfyrddau rhyngweithiol sy'n dangos data ar y gweithlu a gwyliadwriaeth COVID-19. Mae hefyd wedi addasu ei hadroddiad integredig ar berfformiad i wahanu gweithgarwch COVID-19 yn glir oddi wrth weithgarwch busnes fel arfer. Mae'r adroddiadau'n eglur, gyda digon o wybodaeth i fonitro ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi atal cryn dipyn o'r gwaith i gyflawni ei strategaeth hirdymor a'i Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI).

17 **Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau wedi addasu'n dda i gynnal tryloywder mewn cyfarfodydd rhithwir.**

18 Fe wnaeth materion technegol atal yr Ymddiriedolaeth rhag ffrydio cyfarfodydd y Bwrdd yn fyw o fis Chwefror 2020 ymlaen ond fe ailddechreuodd eu ffrydio'n fyw ym mis Gorffennaf 2020. Cymerodd gamau i wella tryloywder mewn ffyrdd eraill, megis defnyddio mwy o gyflwyniadau ar lafar i leihau nifer y papurau i aelodau eu hystyried, a chofnodi mwy o fanylion mewn cofnodion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddaru moesau ei Bwrdd yn ddiweddar i gynnwys cyfarfodydd rhithwir ac mae cadeiryddion pwyllgorau'n atgoffa aelodau'n rheolaidd am foesau cyfarfodydd rhithwir ar ddechrau pob cyfarfod. Mae cyflwyniadau ar lafar y gwnaethom ni arsylwi arnynt wedi bod yn rhagorol, gyda chrynodebau clir o wybodaeth sy'n aml yn gymhleth, a'r rheiny'n tynnu sylw at faterion allweddol a meysydd allweddol sy'n achos pryder. Ategir cyflwyniadau'n aml gan bapurau eglur a manwl. Fodd bynnag, mae rhai papurau'n faith ac mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ychwanegu crynodebau o gynnwys mewn taflenni eglurhaol mewn ymateb i Archwiliad Mewnol o Swyddogaethau'r Bwrdd a Phwyllgorau ym mis Ebrill 2020[5].

19 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos diwylliant cadarnhaol o gydweithio rhwng aelodau'r Bwrdd a herio adeiladol ganddynt sydd wedi tyfu'n gryfach yn ystod y pandemig.**

20 Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn amlwg yn gwerthfawrogi cyfraniad ei gilydd ac yn falch o'r ffordd yr ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i COVID-19. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn mynd ati'n frwd i geisio cyfleoedd i gynnwys y Cyfarwyddwyr Anweithredol ac maent wedi cynnal

[5] Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd sylweddol ynghylch effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol sy'n bodoli i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Bwrdd a Phwyllgorau.

perthynas agored, dryloyw trwy gydol y pandemig. Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi bod yn hyblyg o ran eu dull ac wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd mwy mynych o'u gwirfodd. Cyfarfu'r Bwrdd naw gwaith yn ystod mis Ebrill i drafod materion a oedd yn ymwneud â chapasiti profi ac maent wedi bod yn ymwneud yn helaeth â phenderfyniadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud (gweler adran 3). Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid gan gynnwys bwletin wythnosol trwy'r e-bost i sefydliadau'r trydydd sector a chyfarfodydd wythnosol y fforwm partneriaeth lleol[6]. Mae cynrychiolydd o'r fforwm yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a rhai cyfarfodydd pwyllgorau.

21 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i sicrhau parhad busnes a chydnerthedd yn ystod y pandemig.**

22 Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Argyfwng a'i strwythur rheoli[7] ar waith ym mis Chwefror 2020. Roedd swyddogion y gwnaethom ni gyfweld â hwy'n teimlo bod trefniadau'n gweithio'n dda. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu ac addasu'r strwythur i wella effeithiolrwydd a chydnerthedd. Tynnodd y grŵp arian allan o'i strwythur i osgoi dyblygu gyda chyfarfodydd y grŵp Aur. Newidiodd amlder cyfarfodydd y drefn reoli aur ym mis Mehefin 2020 hefyd o ddwywaith yr wythnos i unwaith yr wythnos. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gynyddu nifer y cyfarwyddwyr strategol a oedd yn arwain yr ymateb i COVID-19 o un i dri i wella cydnerthedd ac ysgogi meysydd gwaith allweddol.

23 Mae trefniadau cydnerthedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn rheolaidd hefyd. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd mewn cysylltiad â'i gilydd yn ddyddiol, mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn cyfathrebu ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau, ac mae'r Cadeirydd yn cwrdd yn rhithwir â'r holl Gyfarwyddwyr Anweithredol yn wythnosol. Mae cadeiryddion y pwyllgorau'n cwrdd bob pythefnos yn hytrach na phob chwarter hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi tri Chyfarwyddwr Anweithredol newydd yn ddiweddar[8].

24 **Mae'r Bwrdd yn parhau i ddangos ymrwymiad gwirioneddol i ddysgu a gwella'n barhaus.**

25 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi atal rhai cyfleoedd meithrin tîm a datblygu o ganlyniad i COVID-19 ond mae aelodau'r Bwrdd wedi dysgu sgiliau technegol a thestun-benodol newydd yn gyflym. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cynnwys cyfleoedd i fyfyrio a rhoi adborth ar y cyfarfod. Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol unigol yn dal i fyfyrio'n unigol ar feysydd ar gyfer gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried pa rannau o'i threfniadau llywodraethu COVID-19 i'w cadw yn y tymor hwy a bydd yn adolygu trefniadau ar y cyd ym mis Awst. Mae Adran 3 yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddull yr Ymddiriedolaeth o ddysgu o'i hymateb i COVID-19.

[6] Mae'r fforwm yn cynnwys UNITE, UNISON a'r Cydbwyllgor Meddygol a Deintyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cwrdd â'r Cydbwyllgor Meddygol a Deintyddol ar wahân.

[7] Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r strwythur rheoli gan gynnwys rôl grwpiau Aur ac Arian yr Ymddiriedolaeth.

[8] Un swydd wag lawn-amser ac un swydd wag ran-amser ar sail rhannu swydd.

## Rheoli risgiau

26 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer rheoli risgiau a addasodd yn gyflym i adnabod risgiau a chamau lliniaru sy'n gysylltiedig â COVID-19**

27 Mae'r Bwrdd yn craffu ar drefniadau rheoli risgiau'r Ymddiriedolaeth trwy ei gofrestrau risg corfforaethol a strategol. O fis Ebrill, dechreuodd graffu ar gynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â risgiau yn ei chofrestrau'n fisol yn hytrach na phob chwe mis. Mae'r PALIC a'r PADG yn craffu ar risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith mewn manylder. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestrau risgiau mwy manwl i ategu ei hymateb i COVID-19 ac ailgychwyn ei gwasanaethau (gweler **paragraff 26**). Ym mis Ebrill 2020, fe ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth 10 risg newydd sy'n gysylltiedig â COVID-19 at ei chofrestr risgiau corfforaethol. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn disgrifio risgiau sy'n gysylltiedig â COVID ac nad ydynt yn gysylltiedig â COVID gan gynnwys unrhyw risgiau a uwchgyfeiriwyd neu a isgyfeiriwyd. Ym mis Mai 2020, fe ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth risg newydd sy'n gysylltiedig â COVID-19 at ei chofrestr risgiau strategol: 'y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu â chyflawni ei chyfrifoldebau statudol am ddiogelu'r cyhoedd yn ystod pandemig COVID-19 yn effeithiol a hefyd sicrhau bod gan y sefydliad gynllun effeithiol ar gyfer adfer wrth i'r pandemig gilio'. Roedd y risg newydd yn ystyried gwybodaeth yn nadansoddiad PESTLE[9] yr Ymddiriedolaeth o effaith bosibl y pandemig ar y boblogaeth a chanfyddiadau o'i harolygon wythnosol o'r boblogaeth. Ar 10 Gorffennaf 2020, cafodd y Bwrdd sesiwn ddatblygu ar risg lle gwnaeth adolygu parodrwydd yr Ymddiriedolaeth ar y cyfan i dderbyn risg yng ngoleuni risg newydd COVID-19 a phenderfynu peidio â'i newid.

28 Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar gynnydd o ran mynd i'r afael â'r risgiau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID yn y gofrestr risgiau strategol ym mis Ebrill 2020. Roedd y diweddariad yn egluro bod yr Ymddiriedolaeth wedi atal cryn dipyn o'i gwaith i gyflawni ei blaenoriaethau strategol i ganolbwyntio ar ymateb i'r pandemig. O ganlyniad, cafodd llawer o weithgareddau i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau strategol eu hatal hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod COVID-19 yn cael effeithiau niferus a chymhleth ar iechyd a lles y boblogaeth. O ganlyniad, mae'n bwriadu adolygu ei blaenoriaethau strategol fel rhan o'i Chynllun Cyflawni Cam 2 (gweler adran 3). Efallai y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ddiwygio'i chofrestr risgiau strategol o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'w blaenoriaethau strategol.

29 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cwblhau ei threfniadau rheoli risgiau i gyflawni ei rhan hi o Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu Llywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi cynlluniau cam 1 a cham 2 i gyflawni ei gwaith Profi, Olrhain a Diogelu[10]. Mae'r ddau gynllun yn rhoi disgrifiad clir o risgiau sy'n gysylltiedig â

[9] Fe wnaeth y dadansoddiad fwrw golwg ar effaith Wleidyddol, Economaidd, Gymdeithasol, Gyfreithiol ac Amgylcheddol y pandemig

[10] Mae Cynllun Cam 1 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 4 Mai a 7 Mehefin 2020. Mae Cynllun Cam 2 yn rhedeg o 8 Mehefin tan 31 Awst 2020.

phob maes gwaith (neu ffrwd waith). Mae cynllun cam 2 yn dweud sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn lliniaru'r risgiau i gyflawni ac yn nodi blaenoriaethau i wella ansawdd, diogelwch a phrofiad ac ymgysylltiad defnyddwyr. Ceir cofrestrau risgiau manwl ar gyfer pob ffrwd waith y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu defnyddio i ysgrifennu adroddiadau sefyllfa ar gyfer pob ffrwd waith. Mae'r adroddiadau sefyllfa'n goleuo Asesiad Hyder Cyflawni wythnosol. Mae'r Asesiad yn seiliedig ar risgiau a allai effeithio ar gyflawni yn unol â'r gofynion o ran amser, costau ac ansawdd. Mae grŵp Aur yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r asesiad i weld pa mor hyderus all fod y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn ôl y cynllun a beth y mae angen ei wneud i gadw ar y trywydd iawn ar gyfer cyflawni. Caiff yr adroddiadau sefyllfa a'r Asesiadau Hyder Cyflawni eu rhannu gyda'r Bwrdd bob wythnos. Mae'r cynlluniau cam 1 a 2 yn cynnwys crynodebau defnyddiol o Asesiadau Hyder Cyflawni ar gyfer craffu cyhoeddus.

30 I helpu'r ffrydiau gwaith i gyflawni rhaglenni diogel, o ansawdd sy'n lleihau risg i'r eithaf ac yn ei lliniaru, mae'r cynlluniau'n cynnwys ffrwd waith ategol ar ansawdd, diogelwch, llywodraethu gwybodaeth a rheoli risgiau (ADLIGRhR). Er enghraifft, mae'r ffrwd waith ADLIGRhR yn gweithio gyda'r Bwrdd a'r grŵp aur i wneud yn siŵr bod y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwaith Profi, Olrhain a Diogelu'n cael eu hadlewyrchu yn y cofrestrau risgiau corfforaethol a strategol. Hyd yma, mae cynlluniau i ddatblygu a chefnogi gweithlu'r Ymddiriedolaeth ac i ailgychwyn rhai gwasanaethau sgrinio wedi cysylltu'n dda â chofrestrau risgiau corfforaethol a strategol yr Ymddiriedolaeth.

31 Ym mis Ebrill 2020, rhoddodd y tîm archwilio mewnol[11] sicrwydd rhesymol i drefniadau rheoli risgiau'r Ymddiriedolaeth. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y Cyfarwyddiaethau Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol ac Iechyd a Lles. Canfu feysydd lle ceir arfer da sy'n dangos bod dull yr Ymddiriedolaeth o reoli risgiau ar y cyfan yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, fe wnaeth argymhellion i fynd i'r afael â materion yn y ddwy gyfarwyddiaeth, y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i'w datrys.

32 Cyn yr achos o COVID-19, fe gymeradwyodd y Bwrdd waith ar fframwaith risgiau strategol newydd i ddisodli Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd y fframwaith newydd yn helpu'r Bwrdd i asesu pa mor ddibynadwy yw ffynonellau sicrwydd. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da o ran datblygu'r fframwaith ac mae wedi mapio ffynonellau sicrwydd ar gyfer pedwar o'r risgiau ar ei gofrestr risgiau strategol. Mae'r gwaith mapio sicrwydd wedi cael ei atal yn ystod y pandemig ond mae gwaith hyd yma wedi rhoi haen ychwanegol o sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r gwaith yn dangos ymagwedd aeddfed yr Ymddiriedolaeth at reoli risgiau ac ymrwymiad i wella'i phrosesau'n barhaus.

[11] Roedd yr archwiliad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

## Systemau sicrwydd

33 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda i gynnal safonau ansawdd a diogelwch yn ystod y pandemig ac yn darparu sicrwydd cryf ar gyfer y Bwrdd a'r PADG.**

34 Ers mis Mawrth, mae materion ansawdd a diogelwch pwysig wedi cael eu trafod ar lefel y Bwrdd i sicrhau ffocws cryf ar ansawdd a diogelwch mewn penderfyniadau strategol. Mae'r Bwrdd yn parhau i herio swyddogion i ddylunio gwasanaethau mewn perthynas â phrofiad defnyddwyr gwasanaethau a thrawsnewid gwasanaethau'n gyflym. Dywedodd un aelod o'r Bwrdd y gallai'r Ymddiriedolaeth ddysgu gwersi i helpu trawsnewid cyflym trwy ystyried sut y gwnaeth ei gwasanaethau oresgyn heriau i arloesi digidol yn ystod y pandemig. Mae'r Bwrdd wedi trafod lles y gweithlu a chymorth ar gyfer y gweithlu, iechyd a diogelwch, ac asesiadau risg ar gyfer staff (gweler adran 3). Mae hefyd wedi ystyried niwed i'r boblogaeth trwy'r dadansoddiad PESTLE ac yn fwy penodol, atal ac ailgychwyn gwasanaethau sgrinio. Fe wnaeth Isadran Sgrinio'r Ymddiriedolaeth asesu'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â darparu rhaglenni sgrinio ym mis Mawrth 2020 ac fe gytunodd â Llywodraeth Cymru i atal yr holl wahoddiadau a chanslo clinigau bron ar unwaith ar gyfer:

- Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru;
- Rhaglen Sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen Cymru;
- Bron Brawf Cymru;
- Sgrinio'r Coluddyn Cymru; a
- Sgrinio Serfigol Cymru.

35 Fe barhaodd yr Ymddiriedolaeth â rhaglenni Sgrinio Newydd-anedig Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig a Sgrinio Clyw Babanod oherwydd bod risgiau clinigol eu hatal yn gwrthbwyso risgiau parhau i'w darparu yn ystod y pandemig. Cafodd y Bwrdd wybodaeth am y risgiau i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd ac roedd yn rhan allweddol o'r penderfyniad i atal rhai rhaglenni. Ym mis Ebrill, cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar sefyllfa gyfredol pob rhaglen sgrinio gan gynnwys sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar raglenni a ataliwyd a rhaglenni sy'n dal i gael eu darparu. Ym mis Mehefin, trafododd y Bwrdd gynllun yr Ymddiriedolaeth i ailgychwyn gwasanaethau sgrinio. Mae'r cynllun yn blaenoriaethu rhaglenni a chleifion ar sail risg. Mae gan yr Ymddiriedolaeth amserlenni clir ar gyfer ailgychwyn rhaglenni sgrinio ac adfer gwasanaethau i lefelau gweithredu arferol. Mae ei chynlluniau'n seiliedig ar amcangyfrifon o weithgarwch beunyddiol gan ystyried effaith bosibl cadw pellter cymdeithasol ar nifer y bobl sy'n gallu mynychu clinigau sgrinio'n ddiogel.

36 Mae dros 60% o staff yr Ymddiriedolaeth wedi cael offer i weithio gartref. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal asesiadau iechyd a diogelwch o'i hadeiladau ac wedi sefydlu trefniadau cadw pellter cymdeithasol lle y bo'n bosibl. Mae cadw pellter cymdeithasol yn anodd mewn rhai rhannau o'i labordai microbioleg, felly mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau i leihau'r risg o heintio. Mae'r

Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwybodaeth o'r asesiadau i ddatblygu cynllun gweithredu i sicrhau iechyd a diogelwch ei gweithlu. Bydd y cynllun yn cael ei fonitro trwy ei grŵp iechyd a diogelwch. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi comisiynu asesiad allanol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch mewn perthynas â COVID-19.

37 Ym mis Mehefin, gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r holl staff gwblhau asesiad risg personol. Datblygwyd yr offeryn asesu risg COVID-19 gan weithgor a gafodd gomisiwn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu ar yr wybodaeth hyd yma trwy wneud newidiadau i leihau i'r eithaf y risg i staff gan gynnwys cynorthwyo staff i weithio gartref. O 24 Gorffennaf, mae gwybodaeth ynghylch pa un a yw'r asesiadau risg wedi cael eu cwblhau wedi cael ei chynnwys ar Gofnod Staff Electronig yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu gwneud, ac i bwyso a mesur y goblygiadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Cyn rhoi asesiad risg staff Cymru gyfan ar waith, roedd yr Ymddiriedolaeth eisoes wedi asesu'r risgiau i staff a allai fod yn fwy agored i niwed o ganlyniad i effeithiau COVID-19 yn seiliedig ar wybodaeth ar ei Chofnod Staff Electronig.

38 Defnyddiodd y PADG y bwlch rhwng ei gyfarfodydd ym mis Chwefror a mis Mai 2020 i adolygu ei rôl mewn perthynas â'r Bwrdd a phwyllgorau eraill. Datblygodd raglen waith sy'n taro cydbwysedd rhwng sicrwydd bod prosesau llywodraethu ansawdd yn cael eu cynnal a phenderfyniadau strategol ynglŷn â'r hyn y mae meysydd allweddol o ran llywodraethu ansawdd yn ei olygu yn ystod y pandemig. Er enghraifft, rhoddodd pwyllgor mis Gorffennaf ystyriaeth i bapur ar sut y mae'r Ymddiriedolaeth wedi addasu ei dull o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Rhoddodd ystyriaeth hefyd i bapur ar ddysgu o waith yr Ymddiriedolaeth gyda lleoliadau caeedig[12] i oleuo'i ddull ehangach o ymdrin â'r pandemig. Mae'r Pwyllgor yn parhau i graffu ar adroddiadau Gweithio i Wella ar gwynion, canmoliaeth a digwyddiadau. Mae'r adroddiadau'n nodi'n glir beth yw'r tueddiadau a'r meysydd a allai fod yn achos pryder ac mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Dangosfwrdd Sicrwydd Rheoli Ansawdd i ategu'r adroddiad.

39 Cyn yr achos o COVID-19 roedd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu Strategaeth Ansawdd a Gwella newydd. Bydd y Strategaeth yn cynnwys pwyslais ar weithgarwch mewn amser real i fesur ansawdd a gwelliant yn hytrach na gwerthuso ôl-weithredol. Mae gwaith ar y Strategaeth wedi cael ei atal. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu defnyddio'r dull amser real i fonitro'r modd y mae ei chynllun Cam 2 yn cael ei gyflawni. Mae'n datblygu mesurau a dangosyddion ansawdd ar gyfer pob ffrwd waith a ffyrdd o gyflwyno'r wybodaeth. Mae wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd, yn enwedig ar gyfer y ffrwd waith samplu a phrofi. Mae gan y ffrwd waith ddangosfwrdd monitro perfformiad

[12] Megis cartrefi gofal a charchardai.

trawiadol sy'n galluogi'r defnyddiwr i holi'r wybodaeth i roi manylion amrywiadau lleol.

40 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i dracio'i chynnydd o ran mynd i'r afael â chanfyddiadau archwiliadau ac adolygiadau a barhaodd trwy gydol y pandemig. Mae'r PALIC yn adolygu ei logiau archwilio mewnol ac allanol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd. Mae'r log yn cynnwys canfyddiadau o archwiliadau mewnol, allanol a chlinigol. Gwelsom graffu da ar ganfyddiadau archwilio gan y Pwyllgor gyda phenderfyniadau eglur ynglŷn â beth i'w gynnwys yn y log a phryd i adolygu cynnydd. Ym mis Ionawr 2020, rhoddodd y tîm Archwilio Mewnol[13] sicrwydd cyfyngedig i'r Ymddiriedolaeth ynghylch y modd y mae'n rheoli rhybuddion, hysbysiadau diogelwch a chyfathrebiadau eraill. Fe wnaeth y tîm Archwilio Mewnol saith argymhelliad y maent i gyd bellach wedi cael eu rhoi ar waith.

# Rheoli adnoddau ariannol

41 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau i fonitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

42 Canfuom fod **trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli adnoddau ariannol yn gweithio'n dda**.

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

43 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau ariannol ond mae mantoli'r cyfrifon yn 2020-21 yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd cyllid ychwanegol ar gael i dalu cost barhaus ymateb i COVID-19**.

44 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn mantoli'r cyfrifon yn gyson, gan ddwyn gwargedion bychain bob blwyddyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni dyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd (2017-18 a 2019-20) ac i fod â chynllun tymor canolig integredig (CTCI) cymeradwy ar gyfer y cyfnod o 2019-20 i 2021-22. Yn 2019-20 cyflawnodd arbedion wedi'u cynllunio a oedd yn gyfanswm o bron i £1.777 miliwn, cadwodd warged bach (£42,000) ac arhosodd o fewn ei therfyn gwariant cyfalaf. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys £0.9 miliwn o gostau a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19, y cafodd ychydig dros eu hanner (54%) eu rheoli o fewn sefyllfa'r Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Darparodd Llywodraeth Cymru weddill y cyllid i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu mantoli.

45 I fantoli'r cyfrifon yn 2020-21, adnabu'r Ymddiriedolaeth yr angen i gyflawni arbedion sy'n gyfanswm o £1.35 miliwn i wrthbwyso pwysau o ran costau ac i greu cronfa fuddsoddi i gefnogi'r newidiadau sy'n ofynnol i'w strategaeth hirdymor. Nid oedd cynlluniau arbedion manwl gan gyfarwyddiaethau wedi cael eu cwblhau nac

[13] Cynhaliwyd yr archwiliad y mis Medi a mis Hydref 2019.

wedi cael asesiad risg eto o safbwynt y gallu i'w cyflawni a'u heffaith ar wasanaethau ar yr adeg y datblygodd yr Ymddiriedolaeth ei chynllun ariannol. Ym marn yr Ymddiriedolaeth dim ond £1.165 miliwn (86%) o arbedion a adnabuwyd y gellir eu cyflawni. Nid yw'r cynlluniau ar gyfer y £185,000 sy'n weddill wedi cael eu cwblhau eto, sy'n effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i fynd ar drywydd gweithgareddau buddsoddi yn unol â'i strategaeth hirdymor. Mae hefyd yn rhagweld y bydd yn tangyflawni arbedion sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ym maes caffael a chynlluniau aberthu cyflog sy'n gyfanswm o £145,000 o ganlyniad i COVID-19.

46 Ar ddiwedd mis Mehefin, roedd cyfanswm cyllid cyfalaf yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2020-21 yn £4.826 miliwn – gan gynnwys £1.687 miliwn o gyfalaf yn ôl disgresiwn y mae £154,000 ohono wedi cael ei ddyrannu i gefnogi COVID-19. Cyfalaf strategol mewn perthynas â COVID-19 yw'r £3.139 miliwn sy'n weddill. Roedd gwariant cyfalaf yn gyson â'r hyn a gynlluniwyd, er nad oedd cyfran fawr (88%) o'r cyfalaf yn ôl disgresiwn wedi cael ei ddyrannu eto.

47 Fel rhan o'i chynllun ariannol ar gyfer 2020-21, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno y bydd tanwariannau ar gyflogau, nifer o gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, a'r gronfa fuddsoddi fewnol yn cael eu dal yn ganolog i gyfrannu at y costau ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i COVID-19. Roedd cyfanswm y gwariant ar COVID-19 hyd at ddiwedd mis Mehefin yn £6.298 miliwn, y cwrddwyd ag £1.265 miliwn ohono gan ddefnyddio cyllidebau a ddelir yn ganolog gan yr Ymddiriedolaeth a'r gweddill gan Lywodraeth Cymru.

48 Y Bwrdd sy'n dal i fod yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar berfformiad ariannol, cael gwybodaeth am y sefyllfa ariannol a gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r adroddiadau hyn yn dynodi'n glir bod risg barhaus efallai na fydd costau gweithredol ymateb i'r pandemig a chael adferiad ar ei ôl yn gallu cael eu talu'n llwyr o'r cyllid sydd ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod rhaid iddi reoli trwy lithriant, peidio â chanlyn arni â buddsoddiadau, atal rhaglenni gwaith a pheidio â llenwi swyddi gwag yn ôl y gyfradd ddisgwyliedig ond mae'n dal i fod yn ffyddiog y bydd cyllid ychwanegol ar gael. Mae'n dal i ragweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 gan ddisgwyl y bydd yn cael incwm ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â chostau COVID-19 a dyraniadau tybiedig sydd heb gael eu talu eto.

## Rheolaethau ariannol

49 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â rheolaethau ariannol cryf ac nid oedd angen iddi wneud newidiadau sylweddol i addasu i COVID-19.**

50 Mae trefniadau llywodraethu ariannol yr Ymddiriedolaeth yn ddigyfnewid i raddau helaeth ac eithrio'r newidiadau a gymeradwywyd i derfynau dirprwyedig. Yn ychwanegol at y cynnydd dros dro yn nherfyn dirprwyedig y Prif Weithredwr (gweler **paragraff 13)**, fe gymeradwyodd y Bwrdd gynnig i gynyddu terfyn dirprwyedig y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a

Gweithrediadau i £500,000[14]. Mae ei ddirprwy'n gallu awdurdodi taliadau yn ei absenoldeb neu pan fo'n gweithredu fel y Prif Weithredwr. Mae'r gofyniad i hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch ei bwriad i ymrwymo i gontract â gwerth o fwy na £500,000 ac i geisio'i chytundeb ar gyfer contractau dros £1 filiwn yn dal i fod yn ei le. Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r Prif Weithredwr a'i ddirprwyon wedi gorfod defnyddio'u hawdurdod dirprwyedig gan bod yr holl wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu ei threfniadau llywodraethu ym mis Awst 2020.

51 Fe wnaeth y Bwrdd hefyd roi cymeradwyaeth i atal y gofyniad i ddilyn y trothwyon caffael yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag argyfwng COVID-19, a ganiateir dan reoliadau caffael cyfredol. Sefydlwyd rheolaethau ychwanegol i sicrhau goruchwyliaeth a chraffu gan y Bwrdd ar drafodion ariannol sy'n defnyddio'r terfynau awdurdodi uwch. Mae materion a chamau gweithredu sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi'n cael eu logio a'u cynnwys yn yr adroddiadau cyllid a gyflwynir i gyfarfodydd preifat y Bwrdd. Yn y cyfamser, mae'r PALIC yn dal i gael adroddiad caffael manwl ar Weithredoedd Tendr Sengl a Gweithredoedd Dyfynbris Sengl fel sy'n ofynnol yn ôl y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Caiff rhesymau ac amgylchiadau'r ymarfer caffael eu nodi'n glir. Roedd nifer y Gweithredoedd Tendr Sengl a'r Gweithredoedd Dyfynbris Sengl rhwng dechrau mis Mawrth a diwedd mis Ebrill 2020 yn gymharol ddigyfnewid o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol, er bod y gwerth wedi cynyddu'n sylweddol i fwy na £30 miliwn oherwydd gofynion COVID-19.

52 Fe wnaeth y tîm Archwilio Mewnol adolygu elfennau o brosesau a gweithdrefnau ariannol craidd yr Ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r llyfr cyfrifon cyffredinol, Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus a mynediad awdurdodedig at y systemau ariannol yn gynnar yn 2020 cyn COVID. Rhoddodd y tîm Archwilio Mewnol sicrwydd sylweddol i systemau'r Ymddiriedolaeth gyda'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu i gryfhau systemau ymhellach.

53 Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth god costau ar wahân i gofnodi gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ionawr 2020. Ym mis Mehefin, fe greodd gyfarwyddiaeth COVID newydd hefyd ar gyfer y pedair ffrwd waith a nodir yn y cynllun cyflawni Profi, Olrhain a Diogelu, i gofnodi costau parhaus, yn enwedig ar gyfer staff asiantaeth a goramser. Mae wrthi ar hyn o bryd yn ailgodio gwariant ym mis Ebrill a mis Mai i'r pedair ffrwd waith yn hytrach na'i gofnodi mewn un cod costau fel yn flaenorol. Bydd ailgodio gwariant yn helpu'r Ymddiriedolaeth i adnabod costau cyffredinol ymateb i COVID-19. Bydd gan y gyfarwyddiaeth newydd (fel cyfarwyddiaethau eraill) ddeiliaid cyllidebau gyda gwariant yn cael ei fonitro yn erbyn rhagolygon gwariant manwl. Caiff gwariant sy'n gysylltiedig â

[14] Y terfyn dirprwyedig ar gyfer y Prif Weithredwr cyn COVID-19 yw hwn.

COVID-19 ei gofnodi ar y ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru sy'n cael eu rhannu gyda'r Bwrdd.

54 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu ystod o fecanweithiau i sicrhau goruchwyliaeth weithredol ar wariant yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio cylchrestrau staff gan dîm y gweithlu cyn awdurdodi taliadau ar gyfer staff asiantaeth, rheolwyr llinell yn cymeradwyo hawliadau goramser COVID-19 ac uwch staff cyllid yn adolygu'r llif arian yn rheolaidd o ganlyniad i risgiau COVID-19. Mae'r tîm cyllid hefyd yn dilysu gwariant ar ddiwedd pob mis i sicrhau bod gwariant COVID-19 wedi cael ei adnabod yn gywir.

# Cynllunio gweithredol

55 Fe wnaeth ein gwaith ystyried cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol a'r nod oedd adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

56 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n dda i ddatblygu cynlluniau gweithredol effeithiol a threfniadau cadarn i fonitro cynnydd ac adrodd arno. Wrth iddi gynllunio ar gyfer adferiad, mae'r Ymddiriedolaeth yn pwyso a mesur ei gofynion o ran y gweithlu i barhau i ymateb i COVID-19 ar yr un pryd ag ailgychwyn ei gwasanaethau neu barhau â hwy.**

## Datblygu'r cynllun

57 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio'n gyflym ac yn effeithiol gyda'i Bwrdd a'i rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau gweithredol.**

58 Seiliodd yr Ymddiriedolaeth ei gwaith cynllunio gweithredol ar y dybiaeth mai ei phrif ffocws ar gyfer gweddill 2020 fydd ymateb i'r pandemig. I'r perwyl hwn, cynhyrchodd gynlluniau cyflawni cam 1 a 2 i gyflawni ei rhan hi o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. Ar yr un pryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ar ei chynllun adfer sefydliadol. Y cynllun cam 1 oedd cynllun gweithredol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer chwarter 1[15]. Mae cynllun gweithredol chwarter 2 yn cyfuno cynllun cam 2 ac elfennau allweddol o ddull yr Ymddiriedolaeth o fynd ar drywydd adferiad sefydliadol. Cafodd aelodau'r Bwrdd sawl cyfle i wneud sylwadau ar gynnwys cynlluniau drafft a herio'r cynnwys hwnnw cyn iddynt gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i gyfarfodydd y Bwrdd i gael eu cymeradwyo'n derfynol.

[15] Ar 3 Mehefin, anfonodd yr Ymddiriedolaeth grynodeb o'i ymateb chwarter 1 at Lywodraeth Cymru gan egluro sut yr oedd yn ateb gofynion Fframwaith Gweithredu'r GIG ar gyfer COVID-19.

59 Mae cynlluniau cam 1 a 2 yn eglur gyda therfynau amser tynn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys peth hyblygrwydd yn ei chynlluniau i dderbyn meysydd gwaith newydd posibl megis rhaglen brechu rhag COVID-19. Mae'r cynlluniau wedi cael eu goleuo gan waith modelu manwl a data gwyliadwriaeth yr Ymddiriedolaeth.

60 Nid un ddogfen yw cynllun adfer sefydliadol yr Ymddiriedolaeth, ond sawl cynllun sy'n canolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol:

- ailgychwyn gwasanaethau;
- y gweithlu;
- seilwaith;
- cofnodi arferion arloesol a gwersi a ddysgwyd;
- creu dangosfyrddau ymateb ac adfer o wybodaeth am berfformiad; ac
- adolygu Strategaeth a Chynlluniau tymor hwy'r Ymddiriedolaeth.

Ar adeg ysgrifennu, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi cynlluniau i ailgychwyn gwasanaethau sgrinio ac i gefnogi a datblygu ei gweithlu. Trafodwyd y ddau gynllun gan y Bwrdd ym mis Mehefin. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cwblhau ei chynlluniau ategol eraill erbyn mis Medi 2020. Wrth iddi ddatblygu'r cynlluniau adfer, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi gamu'n ôl ac ystyried ei chynlluniau gweithredol yn eu cyfanrwydd i ddeall y dibyniaethau rhyngddynt. Yn arbennig, mae angen i gynlluniau adlewyrchu effaith ailgychwyn gwasanaethau sgrinio ar waith Profi, Olrhain a Diogelu ac i'r gwrthwyneb os ceir cynnydd sylweddol mewn achosion COVID-19 (gweler yr adran ar adnoddau isod).

61 Yn naturiol, mae maint gwaith yr Ymddiriedolaeth i ymateb i COVID-19 yn golygu nad yw wedi gallu cyflawni rhannau o'i Chynllun Tymor Canolig Integredig. O ganlyniad, bydd yn adolygu ai Chynllun Tymor Canolig Integredig a'i strategaeth hirdymor fel rhan o'i chynllun cyflawni cam 2. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cydnabod bod effeithiau COVID-19 ar y boblogaeth ac ar ffyrdd o weithio'n sylweddol. O ganlyniad, bydd yr adolygiad yn ystyried ai ei blaenoriaethau strategol a'r camau gweithredu i'w cyflawni yw'r pethau pwysicaf i ganolbwyntio arnynt o hyd.

62 Am beth amser, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod wrthi'n frwd yn ceisio cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid o wahanol sectorau a gwledydd. Wrth baratoi ar gyfer COVID-19 ac ymateb iddo, mae'r Ymddiriedolaeth wedi addasu'n gyflym i weithio gyda phartneriaid newydd a phresennol. Lle mae perthnasoedd wedi bod yn anodd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio gyda'i Bwrdd i ddeall pam a chanfod ffyrdd o wella. Mae cynllun cam 1 yn cynnwys ffrwd waith benodol ar berthnasoedd. Mae'n rhestru perthnasoedd y mae'n rhaid iddynt weithio'n effeithiol i roi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu ar waith yn ogystal â'r risgiau os na fydd pethau'n digwydd fel a fwriadwyd. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli perthnasoedd a threfniadau gweithredol yn ystod cam 1. Unwaith yr oedd trefniadau yn eu lle, fe dynnodd yr Ymddiriedolaeth y ffrwd waith perthnasoedd allan ar gyfer cam 2.

63 Mae cyfleu negeseuon diogelu iechyd i boblogaeth Cymru'n rhan hanfodol o waith yr Ymddiriedolaeth. Mae cynlluniau cam 1 a 2 yn cynnwys ffrwd waith benodol ar gyfathrebu ac ymgysylltu. Mae'r cynlluniau'n nodi sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyfathrebu gyda rhanddeiliaid, risgiau peidio â'i wneud yn gywir, a chamau lliniaru. Mae'n datblygu Cynllun Cyfathrebu Strategol i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i gefnogi cam nesaf ei gwaith Profi, Olrhain a Diogelu. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu mesurau i ddeall effeithiolrwydd ei threfniadau cyfathrebu. Mae'n bwriadu gwerthuso effaith ei threfniadau cyfathrebu ar ymddygiad y cyhoedd a'u hymddiriedaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad.

64 Mae ffocws parhaus yr Ymddiriedolaeth ar berthnasoedd, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn golygu bod ei gwaith cynllunio gweithredol yn esblygu mewn ymateb i adborth, ymchwil a gwerthuso. Mae bellach yn cyfathrebu'n fwy rheolaidd gyda staff, ac mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys trafodaethau a sesiynau holi ac ateb ar grŵp staff preifat yr Ymddiriedolaeth ar Facebook. Mae tua dwy ran o dair o staff yr Ymddiriedolaeth bellach yn aelodau o'r grŵp. Dylanwadir ar ddull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio ar gyfer adferiad gan drafodaeth reolaidd gyda'i fforwm partneriaeth ac ymatebion i'w harolwg staff ym mis Ebrill a mis Mai.

## Adnoddau i gyflawni'r cynllun

65 **Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod yr adnoddau y mae eu hangen arni i gyflawni ei rhan hi o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu ac mae'n pwyso a mesur y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig ag ailgychwyn gwasanaethau ar yr un pryd.**

66 Mae cynlluniau cam 1 a 2 yn cynnwys ffrydiau gwaith ategol i sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth yr adnoddau i gyflawni ei gwaith Profi, Olrhain a Diogelu. Mae'r cynlluniau'n disgrifio'r staff, yr offer, yr wybodaeth a'r seilwaith y mae eu hangen i gyflawni pob ffrwd waith. Mae cynlluniau gweithredu ar gyfer ffrydiau gwaith yn egluro'r hyn y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ei wneud i roi adnoddau yn eu lle ac yn disgrifio'r cynnydd hyd yma. Mae'r cynlluniau hefyd yn nodi risgiau a chamau lliniaru sy'n gysylltiedig â chaffael adnoddau, a methu â'u darparu. Mae'r cynlluniau'n cynnwys ffrydiau gwaith ategol penodol ar gyllid a chadwyni cyflenwi, gofynion digidol, cudd-wybodaeth a dysgu rhyngwladol, a phobl. Mae pob ffrwd waith yn nodi'n glir beth fydd yr Ymddiriedolaeth yn ei wneud, a phryd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyfrifo costau cyflawni pob ffrwd waith. Mae dull cynllunio ariannol yr Ymddiriedolaeth wedi esblygu yn ystod y pandemig. Mae wedi newid o ffocws ar adnabod ac adfer costau COVID-19 i ddeall effaith ariannol y pandemig ar feysydd eraill o fewn ei busnes.

67 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ddeall ei gofynion o ran y gweithlu ac adnabod bylchau i barhau â rhannau eraill o'i busnes, eu hailgychwyn a'u hadfer. Mae cynlluniau cam 1 a 2 yn nodi pa staff y mae eu hangen arni i gyflawni ei gwaith Profi, Olrhain a Diogelu, yr hyn y mae'n ei wneud i ddiwallu'r angen hwnnw, a'r

cynnydd hyd yma. Aeth yr Ymddiriedolaeth ati'n gyflym i adleoli dros draean o'i gweithlu ymateb i COVID-19 ac mae llawer yn dal i wneud swyddi newydd neu ychwanegol o ganlyniad. Datblygodd system symudiadau'r gweithlu i'w helpu i reoli ceisiadau i symud staff o fewn yr Ymddiriedolaeth neu i sefydliadau eraill. Mae adferiad sefydliadol yn ddibynnol ar sefyllfa lle mae gan yr Ymddiriedolaeth y staff cywir ar gael i gyflawni gwaith Profi, Olrhain a Diogelu ac ailgychwyn gwasanaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu dangosfwrdd y gweithlu i ddeall argaeledd staff. Mae'r wybodaeth yn y dangosfwrdd yn parhau i wella ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd yn rhoi darlun clir o argaeledd y gweithlu i gyflawni'r cynlluniau cam 1 a 2 ar yr un pryd ag ailgychwyn gwasanaethau.

68 Mae cynlluniau cam 1 a 2 yn egluro bod dull yr Ymddiriedolaeth o gefnogi ei gweithlu'n canolbwyntio ar ddarparu adnoddau, cynaliadwyedd, ac ymgysylltu â staff a lles staff. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ystwyth o ran ei dull o adleoli a chefnogi ei staff. O'r dechrau un, fe geisiodd ddatrysiadau staffio cynaliadwy, gan ddefnyddio sgiliau o fewn ei gweithlu presennol lle'r oedd yn bosibl. Er enghraifft, bu staff â phrofiad o reoli cylchrestrau neu ateb galwadau'n gweithio yn y ganolfan gyswllt. Defnyddiodd staff asiantaeth hefyd ac fe recriwtiodd staff ychwanegol lle'r oedd angen. Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth yn gyflym i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff mewn rolau newydd. Adnabu anghenion hyfforddi ar gyfer y dyfodol hefyd gan gynnwys hyfforddiant ar brosesau newydd ar gyfer staff a oedd yn dychwelyd i rolau sgrinio ar ôl cael eu hadleoli. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddysgu gwersi o'i dull hyblyg o symud staff yn ystod brif y pandemig i oleuo'i waith cynllunio adferiad a chynllunio'r gweithlu yn y dyfodol. Yn arbennig, efallai y bydd yn gallu defnyddio'i gweithlu presennol yn wahanol i gyflawni ei blaenoriaethau strategol yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi lles staff mewn amryw ffyrdd. Mewn ymateb i COVID-19, dechreuodd wasanaeth gwrando a chymorth anogwyr ar gyfer rheolwyr llinell. Mae'r Tîm Gweithredol Busnes yn edrych ar lefelau goramser ar draws y sefydliad, yn bennaf i adnabod meysydd lle mae angen iddo fwrw golwg fanylach ar les staff. Mae hefyd yn datblygu cynllun i fynd i'r afael â materion allweddol o'r arolwg staff. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ymgyrch 'Sut ydych chi?' i gefnogi staff gan gynnwys blogiau diweddar gan uwch reolwyr am heriau gweithio gartref. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r blogiau i dawelu meddyliau staff y gallant weithio'n wahanol i jyglo pethau fel ymrwymiadau gofalu.

## Monitro'r broses o gyflawni'r cynllun

69 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cryf i fonitro cynnydd o ran cyflawni ei chynlluniau cam 1 a 2 ac adrodd ar y cynnydd hwnnw. Mae'n datblygu trefniadau i fesur cynnydd yn erbyn ei chynllun adfer sefydliadol.**

70 Mae cynlluniau cam 1 a 2 yn nodi'n glir yr hyn y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ei gyflawni ar gyfer pob ffrwd waith. Bu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ymateb mor gyflym i'r pandemig fel ei bod wedi gorfod dechrau rhoi ei chynllun cam 1 ar waith cyn ei

fod wedi cael ei gwblhau. Felly, mae'r cynllun yn cynnwys crynodeb defnyddiol o gynnydd hyd at adeg ei gyhoeddi. Mae gan bob ffrwd waith dim arwain gydag arweinydd gweithredol. Mae gan ffrydiau gwaith gynlluniau gweithredu unigol a threfniadau monitro a sicrwydd. Mae adroddiadau wythnosol ar y sefyllfa gyda phob ffrwd waith, a'r Asesiad Hyder Cyflawni ar y cyfan yn cael eu defnyddio gan y grŵp Aur a'r Bwrdd i fonitro'r broses o gyflawni'r cynlluniau. Roedd cam 1 hefyd yn canolbwyntio ar wella data i helpu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni a monitro ei chynllun. Mae cynllun cam 2 yn cynnwys asesiad eglur a manwl o gynnydd yn ystod cam 1. Mae'n defnyddio penawdau syml: 'yr hyn y dywedom ni y byddem yn ei wneud' a 'yr hyn a wnaethom' i ddisgrifio'r cynnydd ar gyfer pob cynnyrch. Mae'r cynllun yn amlygu meysydd lle mae'r cynnydd ar ei hôl hi a'r rhesymau pam.

71 Mae papur yr Ymddiriedolaeth ar ei dull o ran adferiad sefydliadol yn cynnwys amserlenni eglur i gwblhau cynlluniau unigol a gwaith ategol. Mae rhan o'r gwaith yn cynnwys dangosfwrdd ymateb ac adfer gyda gwybodaeth am gyflawni'r ymateb i COVID-19; darparu gwasanaethau critigol (megis y rhaglenni sgrinio); pobl (gan gynnwys salwch a recriwtio staff); a chyllid (gwariant sefydliadol a gwariant ar COVID-19). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu fersiynau cynnar o'r dangosfyrddau ac mae'n parhau i'w mireinio. Rhennir y dangosfyrddau gyda'r Bwrdd bob wythnos ac mae'r Bwrdd wedi herio'r Ymddiriedolaeth i wella ansawdd data yn y dangosfyrddau yn enwedig mewn perthynas â'r gweithlu. Mae adborth gan Gyfarwyddwyr Anweithredol yn dangos bod ansawdd gwybodaeth yn y dangosfyrddau wedi parhau i wella a'i fod yn dal i gael ei adolygu.

72 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dysgu o'i dull o ymateb i COVID-19 i oleuo'i dull ei hun a'r dull cenedlaethol o ymateb i'r pandemig gan gynnwys:

- yr arolwg wythnosol o'r boblogaeth sy'n cynnwys deall ymateb y cyhoedd i negeseuon yr Ymddiriedolaeth, a'r ymateb cenedlaethol i'r pandemig;
- sganio'r gorwel rhyngwladol gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill i ddeall effaith COVID-19 a rhannu gwersi; ac
- Asesiadau o Effaith COVID-19 ar Iechyd i ddysgu o amryw effeithiau'r pandemig i oleuo polisi a'r broses o gynllunio adferiad.

73 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gwerthuso ei hymateb i COVID-19 gan gynnwys ei chyfraniad at y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu; yn creu gwybodaeth newydd am effaith COVID-19 ar y boblogaeth; ac yn cyfrannu at wybodaeth ryngwladol am COVID-19. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel rhan o'r gwerthusiad. Trwy gydol y pandemig, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn cynnal adolygiadau cyflym, anffurfiol o'i phrosesau a'i strwythurau. Mae adolygiadau wedi cynnwys y strwythur rheoli aur, effeithiolrwydd cyfarfodydd, ac effeithiolrwydd y grŵp rheoli digwyddiadau[16]. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwerthuso ei gwaith olrhain cysylltiadau a'i gwaith gyda lleoliadau caeedig a'i chynllun cam 1. Ar adeg ysgrifennu, roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n cynnal

[16] Ceir llawer mwy nad ydynt wedi'u rhestru yma. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth bapur ar wersi a ddysgwyd i gyfarfod ei PADG ym mis Gorffennaf (dan eitem 2.6).

gwerthusiad canol tymor o gam 2. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu dull i ddwyn ei holl wersi ynghyd i oleuo'i dull adfer sefydliadol a chynllunio gweithredol a strategol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.